# Siarter Iaith Cymraeg Campus




CYMRAEG Siarter Iaith

# Rhagair

Ry'n ni eisiau ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau. Mae'r Siarter Iaith Cymraeg Campus i bawb. Mae gan bob aelod o'r ysgol ran i'w chwarae – yr ysgol, y cyngor, y disgyblion, y staff, y rhieni, y gofalwyr, y llywodraethwyr, a'r gymuned ehangach! Ry'n ni am wneud yn siŵr bod pob ysgol yn teimlo eu bod nhw'n berchen ar eu Siarter Iaith Cymraeg Campus eu hunain. Gyda'n gilydd, ry'n ni'n mynd i gynyddu faint o Gymraeg mae plant a phobl ifanc yn ei defnyddio â'i gilydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod pa mor bwysig yw rhaglen y Siarter Iaith fel adnodd sy'n mynd i wneud yn siŵr bod mwy o blant a phobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg. Yn ôl fframwaith newydd y Siarter Iaith gan Lywodraeth Cymru, mae'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn cael ei chynnig fel un o ddau lwybr posibl.

Wrth i ni ddatgelu'r ail fersiwn o lyfryn 'Cymraeg Campus' ar gyfer ysgolion cynradd, ry'n ni am longyfarch yr holl ysgolion am yr hyn maen nhw wedi llwyddo i'w wneud eisoes gyda'r Siarter Iaith Cymraeg Campus.

# Amcan

Yn syml, nod y Siarter Iaith Cymraeg Campus yw rhoi fframwaith clir, sy'n gallu cael ei ddefnyddio i hyrwyddo a chynyddu faint o Gymraeg mae plant yn ei defnyddio yn yr ysgol. Yn fyr, prif amcan y Siarter Iaith Cymraeg Campus yw hyrwyddo ethos Gymreig gref mewn ysgolion, a chynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n gwneud i blant fwynhau dysgu Cymraeg.

Mae'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn annog pawb yng nghymuned yr ysgol i gymryd rhan, gan gynnwys staff a chyngor yr ysgol, y disgyblion eu hunain a'u rhieni, llywodraethwyr yr ysgol, a'r gymuned ehangach. Maen nhw i gyd yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth lawn ohoni. Gwaith y Criw Cymraeg yw arwain a gyrru'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn ei blaen.

# Gwobrau Efydd, Arian ac Aur

Fel bod ymdrechion pawb yn cael eu gwerthfawrogi, ethos y Siarter Iaith Cymraeg Campus yw bod pob ysgol yn cyflawni targedau sy'n heriol, ond ddim yn amhosib. Mae'r targedau hyn yn ymwneud â hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Dylai'r Siarter Iaith Cymraeg Campus fod yn rhan o Gynllun Datblygu'r Gymraeg pob ysgol.

Mae'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn cynnwys camau sy'n cael eu hystyried yn arfer da, a dylai pob ysgol allu rhoi'r camau hyn ar waith.

# Y Criw Cymraeg

Mae'n bwysig iawn bod gan dy ysgol 'Griw Cymraeg' er mwyn ei chefnogi gyda'r Siarter Iaith Cymraeg Campus. Mae'r Criw Cymraeg yn chwarae rhan hynod bwysig wrth iddyn nhw hyrwyddo'r Gymraeg ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith o fewn cymuned yr ysgol. Maen nhw hefyd yn helpu i greu amgylchedd dwyieithog sy'n ffynnu.

Mae'r Criw Cymraeg fel arfer yn cynnwys cynrychiolwyr o'r rhan fwyaf o flynyddoedd yr ysgol. Maen nhw'n cwrdd yn rheolaidd gyda'r athro sy'n gyfrifol am y Siarter Iaith er mwyn trafod cynnydd a phethau newydd i'w gwneud.

Mae aelod o'r Criw Cymraeg yn gallu bod yn rhan o Gyngor yr Ysgol fel y gallan nhw siarad â Chorff y Llywodraethwyr wedi hynny. Dylai'r Siarter Iaith fod yn eitem reolaidd ar agenda Cyngor yr Ysgol fel bod modd adrodd am wahanol bethau.

Mae arweiniad ar sut i sefydlu Criw Cymraeg llwyddiannus i'w weld yn y pecyn adnoddau sydd ar gael ar Rwydwaith Hwb Cymraeg Campus.

# Cymuned yr Ysgol

Gyda'r Siarter Iaith Cymraeg Campus, mae'n bwysig iawn sicrhau bod yr ysgol gyfan yn cymryd rhan er mwyn meithrin amgylchedd lle mae croeso i bawb ac mae pawb yn cydweithio.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dysgwyr** | **Uwch Dîm Arwain** | **Llywodraethwyr** | **Staff Addysgu** |
| **Rhieni a Gwarchodwyr** | **Staff y Swyddfa** | **Staff y Gegin** | **Gofalwr a Glanhawyr** |
| **Goruchwylwyr amser cinio a brecwast** | **Partneriaid** e.e. Urdd, Menter Iaith, Cffl, Merched y Wawr | **Ymwelwyr** | **Cymuned ehangach** e.e. busnesau a thrigolion lleol |

# Gosod Llinell Sylfaen a Phwyso a Mesur Effaith

Mae yna ffordd briodol o osod llinell sylfaen a phwyso a mesur llwyddiant wedi'i datblygu mewn cysylltiad â'r nod o hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae'r holiadur yn rhoi cyfle i ddisgyblion nodi i ba raddau maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hefyd yn cyfleu eu hagweddau at y Gymraeg. Mae'r datganiadau yn cyd-fynd yn agos â thargedau'r Siarter Iaith Cymraeg Campus. Ein cyngor yw y dylai athrawon drafod y targedau hyn cyn i'r disgyblion gwblhau'r holiadur.

Dylid edrych dros yr holiadur unwaith eto, gyda'r disgyblion yn ateb yr un cwestiynau er mwyn gweld pa gynnydd sydd wedi'i wneud.

Dylai canlyniadau'r holiadur hwn gael eu rhannu â chymuned yr ysgol a'u defnyddio i lunio cynllun gweithredu. Bydd hyn yn seiliedig ar y gofynion a'r heriau sy'n cael eu hamlygu yn yr ymatebion.

Dyma ddolen i holiaduron Siarter Iaith Cymraeg Campus Llywodraeth Cymru. Dewisa'r holiadur 'Cymraeg Campus (Cynradd)'. Bydd angen i bob disgybl fewngofnodi i Hwb i weld yr holiadur.

hwb.llyw.cymru/siarter/#holiaduron

# Holiadur


Dyma'r deg datganiad i'w graddio gan y disgyblion.

1. Dwi'n gweld posteri, arwyddion ac arddangosfeydd Cymraeg o gwmpas yr ysgol
2. Dwi'n meddwl bod dysgu a siarad Cymraeg yn bwysig
3. Dwi'n siarad Cymraeg yn y dosbarth gyda'r disgyblion eraill
4. Dwi'n siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth
5. Rwy'n clywed Cymraeg yn y gwasanaeth
6. Dwi'n defnyddio apiau a gwefannau i ddysgu Cymraeg
7. Rwy'n mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg e.e. clybiau ar ôl ysgol, Eisteddfodau a thripiau
8. Dwi'n darllen llyfrau Cymraeg
9. Dwi'n defnyddio'r Gymraeg mewn gwersi eraill (heblaw gwersi Cymraeg)
10. Dwi'n mwynhau dysgu a siarad Cymraeg

# Dadansoddi canlyniadau'r holiadur ar-lein

**Darlleniad cyntaf**

**Ail ddarlleniad**



# Ennill y wobr

Mae pob un o'r deg targed ar gyfer pob gwobr i'w gweld ar gynffon y ddraig.

Mae meini prawf llwyddiant wedi'u creu i gefnogi ysgolion i gyflawni pob targed.

Pan fyddi di wedi cyflawni pob un o'r deg targed, cysyllta â dy Cydlynydd Siarter Iaith lleol a fydd yn pwyso a mesur dy gynnydd.

Bydd Cydlynydd Siarter Iaith lleol yn ystyried gwahanol dystiolaeth, gan gynnwys gwrando ar ddisgyblion i benderfynu a yw'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni'r targed. Os yw'r ysgol yn dymuno, mae aelodau eraill o gymuned yr ysgol yn gallu bod yn rhan o hyn hefyd.






# Arddangos cynnydd yr ysgol gyda'r Siarter Iaith Cymraeg Campus

Mae pwyso a mesur cynnydd yn hollbwysig i weithredu'r Siarter Iaith Cymraeg Campus yn llwyddiannus. Mae angen i ysgolion wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio targedau gweledol yn effeithlon er mwyn atgoffa pawb o'r cynnydd sy'n cael ei wneud. Mae arddangosfa *Tanio'r Ddraig* yn enghraifft o hyn. Mae ysgolion yn rhydd i greu eu harddangosfa eu hunain. Mae'r targedau a'r meini prawf llwyddiant yn cael eu rhannu gyda holl gymuned yr ysgol, fel bod pawb yn rhan o'r ymdrech i gyflawni'r targed.

Does dim rhaid i'r ysgol gyflawni'r targedau mewn unrhyw drefn benodol. Mae'r ysgol yn gallu dechrau gweithio ar unrhyw un o'r deg targed. Mae cynnydd yn cael ei ddangos drwy dicio'r meini prawf sydd wedi'u cyflawni. Pan fydd ysgol wedi cwblhau'r holl feini prawf llwyddiant o fewn targed, maen nhw'n gallu gosod fflam uwchben y rhif targed i ddangos yn glir fod y targed wedi'i gyflawni.

Trwy ddefnyddio'r arddangosfa weledol hon, bydd cymuned yr ysgol yn cefnogi ac yn annog ei gilydd i gyrraedd y targed.



# Rhoi Tystiolaeth

Bydd sgyrsiau gyda'r disgyblion ac aelodau o gymuned yr ysgol am yr amgylchedd dysgu yn ffurfio'r rhan fwyaf o'r ymweliad dilysu. Hefyd, mae'n arfer da casglu amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer pob targed.

Gallai tystiolaeth gynnwys:

- lluniau neu fideos o arddangosfeydd a gweithgareddau
- erthyglau neu eitemau newyddion am y gweithgareddau
- Disgyblion yn cymryd rhan ac unrhyw gyflawniadau ganddyn nhw mewn digwyddiadau Cymraeg
- cylchlythyrau, gwefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol, Google Drive, Seesaw
- canlyniadau a dadansoddiad o'r holiadur ar-lein
- tystiolaeth o dargedau gweladwy e.e. Tanio'r Ddraig
- tystiolaeth o waith ar draws y cwricwlwm

# Adnoddau

Galli di ddod o hyd i amrywiaeth o adnoddau ar rwydweithiau HWB e.e.

1. Mewngofnoda i Hwb. Clicia ar 'Cymuned' a dewisa 'Rhwydweithiau Hwb'.
2. Teipia 'Siarter Iaith Cymraeg Campus' yn y blwch chwilio a phwysa Chwilio. Efallai y byddi di hefyd yn dod o hyd i rwydweithiau Cymraeg Campus lleol.
3. Clicia ar rwydwaith 'Siarter Iaith Cymraeg Campus'. Gofynna am gael ymuno â'r rhwydwaith. Bydd dy gais yn cael ei gymeradwyo cyn gynted â phosibl.
4. Pan gei di fynediad i'r rhwydwaith, bydd adnoddau ar gael yn yr adran 'Ffeiliau' i dy helpu i gyrraedd y targedau ym mhob gwobr.

# Y Wobr Efydd,
# Arian Ac Aur

# Gwobr Efydd

1 Mae naws weledol Gymreig yn dechrau cael ei sefydlu.

2 Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn dechrau dod i wybod am fanteision dysgu Cymraeg.

3 Mae disgyblion yn dechrau siarad Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau.

4 Mae disgyblion yn dechrau siarad Cymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd y tu allan i'w dosbarthiadau.

5 Mae gwasanaeth Cymraeg bob wythnos / pythefnos.

6 Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall i ddysgu Cymraeg.

7 Mae'r ysgol yn trefnu ambell weithgaredd cyfoethogi fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.

8 Mae sgiliau darllen Cymraeg (dan arweiniad) yn cael eu cyflwyno.

9 Mae'r Gymraeg yn dechrau cael ei defnyddio mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill gan staff a disgyblion.

10 Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg.

# Gwobr Arian

1. Mae'r Gymraeg yn amlwg ar y rhan fwyaf o arddangosfeydd ac arwyddion o gwmpas yr ysgol.
2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn gwybod am fanteision dysgu Cymraeg.
3. Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg gyda mwy o hyder mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau.
4. Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg gyda mwy o hyder mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau.Mae'r
5. Criw Cymraeg yn arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaeth Cymraeg.
6. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall i gyfoethogi eu dysgu a'u mwynhad o'r Gymraeg.
7. Mae'r ysgol yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.
8. Mae sgiliau darllen Cymraeg (dan arweiniad) yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd.
9. Mae'r Gymraeg yn aml yn cael ei defnyddio mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill gan staff a disgyblion.
10. Mae gan lawer o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg.

# Gwobr Aur

1. Mae tipyn o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn arddangosfeydd ac arwyddion o gwmpas yr ysgol.
2. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn gwybod am fanteision dysgu Cymraeg.
3. Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau.
4. Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau.
5. Mae'r Criw Cymraeg yn arwain bron y cyfan o'r gwasanaeth Cymraeg.
6. Mae'r disgyblion yn defnyddio apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall gryn dipyn i gyfoethogi eu dysgu a'u mwynhad o'r Gymraeg.
7. Mae'r ysgol yn aml yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi, sy'n tyfu, fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.
8. Mae gan ddisgyblion lyfrau darllen Cymraeg eu hunain ac maen nhw'n dal i gael sesiynau darllen dan arweiniad yn rheolaidd.
9. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio cryn dipyn mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill gan staff a disgyblion.
10. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg.

# Targedau
# Y Wobr
# Efydd

**Gwobr Efydd: Targed 1**

# Mae naws weledol Gymreig yn dechrau cael ei sefydlu

- Mae yna arddangosfa Gymraeg gyffredinol ym mhob dosbarth.
- Mae'r dderbynfa yn adlewyrchu gweledigaeth gyfoes o Gymru.
- Mae'r Gymraeg yn dechrau cael ei harddangos o gwmpas y dosbarthiadau e.e.
  - poster croeso ar y drws.
  - Mae gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd enw Cymraeg.
  - mae'r rhan fwyaf o'r deunyddiau wedi'u labelu yn Gymraeg.
- Mae arwyddion Cymraeg / Dwyieithog yn y rhan fwyaf o ardaloedd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol.
- Mae'r ysgol yn cynnal cystadleuaeth i ddylunio poster 'Croeso' a fydd yn cael ei arddangos o gwmpas yr ysgol.
- Mae cynnydd yr ysgol ar gyfer Gwobr Efydd y Siarter Iaith Cymraeg Campus yn cael ei arddangos yn glir.
- Mae Cymraeg ar lefel briodol i'w gweld ar arddangosfeydd pwnc eraill yn y dosbarth.
- Mae Cymraeg ar lefel briodol i'w gweld ar ychydig o arddangosfeydd y tu allan i'r dosbarthiadau.
- Mae Criw Cymraeg yn rhannu cynnydd Siarter Iaith yr ysgol drwy e.e. cylchlythyr/Twitter/gwefan.
- Mae'r Gymraeg yn dechrau cael ei harddangos ar wefan yr ysgol ac yn cael ei defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol e.e.
  - Arwyddion Cymraeg ar wefan yrysgol .
  - Dolenni i weithgareddau ar-lein i rieni a phlant.
  - Rhannu ymadroddion byr e.e. Pob lwc, Llongyfarchiadau, Dydd Gŵyl Dewi Hapus.



# Gwobr Efydd: Targed 2

## Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn dechrau dod i wybod am fanteision dysgu Cymraeg.

Mae disgyblion yn dechrau ymwneud ag adnoddau sy'n canolbwyntio ar beth yw 'Cymreictod' e.e. 10 Stori o Hanes Cymru, Ein Cymru Ni, 'Hanes Cymru' gan Mewn Cymeriad a 'Cymraeg, am daith', 'Mwy o stori'r Iaith' a gŵyl flynyddol CADW o hanes Cymru.

Mae disgyblion yn cael gwybod am fanteision dysgu Cymraeg ac yn creu arddangosfa mewn ardal gymunedol yn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r manteision o ddysgu Cymraeg.

Mae dysgwyr yn creu posteri i annog pobl eraill i siarad Cymraeg e.e.

- 'Siarada'r Gymraeg gyda ffrindiau.'
- 'Mae Cymraeg yn cŵl.'

Mae disgyblion wedi dysgu anthem genedlaethol Cymru, 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

Mae 'Cynefin' a'r Dimensiwn Cymreig wedi'i gynllunio ar gyfer rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae gan bob ysgol fenter lle mae disgyblion yn mynd â rhywbeth Cymraeg gartref gyda nhw e.e. baner, bathodyn Cymraeg neu fasgot Cymreig. Bydd sesiwn holi ac ateb fer yn cael ei chynnal wrth ddychwelyd gan ddilyn y sgriptiau enghreifftiol:

Mae staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r cyrsiau sabothol ar gyfer athrawon a staff cymorth i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi cynnal archwiliad o sgiliau Cymraeg y staff gan ddefnyddio fframwaith y Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer ymarferwyr addysg.

Mae'r ysgol yn dathlu rhai dyddiadau pwysig yn y calendr e.e. Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Twm Siôn Cati ac ati.



**Gwobr Efydd: Targed 3**

# Mae disgyblion yn dechrau siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau

Mae disgyblion a staff yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol wrth gyfarch ei gilydd a mynegi rhai pethau sylfaenol.

Mae'r ysgol wedi datblygu neu fabwysiadu cynllun trosfwaol (e.e. Cymraeg ar dy Dafod) er mwyn i ddosbarthiadau gyflwyno a defnyddio Cymraeg yn ddyddiol un cam ar y tro.

Mae pob dosbarth wedi sefydlu menter 'Helpwr Heddiw'.

Mae'r 'ymadrodd ffocws' sy'n cael ei gyflwyno yn y gwasanaeth yn cael ei ymarfer a'i ddefnyddio'n rheolaidd ym mhob dosbarth. Mae'r disgyblion yn gallu defnyddio'r ymadrodd cyfredol a hefyd ymadroddion blaenorol yn hyderus.

Mae pob dosbarth yn sefydlu trefn foreol e.e cofrestr, cofrestru, trefn ginio, absenoldeb / salwch ayyb.

Mae athrawon yn defnyddio Cymraeg sylfaenol i roi gorchmynion, canmoliaeth a gofyn cwestiynau trwy gydol y dydd.

Mae staff cymorth yn defnyddio Cymraeg sylfaenol i roi gorchmynion, canmoliaeth a gofyn cwestiynau trwy gydol y dydd.

Mae disgyblion yn deall ac yn ymateb i gwestiynau a gorchmynion Cymraeg sylfaenol.



**Gwobr Efydd: Targed 4**

# Mae disgyblion yn dechrau siarad Cymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu allan i'w dosbarthiadau

- [ ] Mae gan y Criw Cymraeg arddangosfa ryngweithiol mewn ardal gymunedol i hyrwyddo 'ymadrodd ffocws' yr wythnos / pythefnos.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio ar un prosiect i hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. e.e. Siop ffrwythau yn cael ei rhedeg yn Gymraeg; paratoi 'bocs Cymraeg' ar gyfer chwarae gwlyb / clwb brecwast; paratoi posteri iaith ar gyfer y neuadd ginio.
- [ ] Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio'r Gymraeg i roi gorchmynion sylfaenol y tu allan i'r dosbarth.
- [ ] Mae galwadau ffôn yn cael eu hateb yn Gymraeg / mae'r neges peiriant ateb yn Gymraeg.
- [ ] Mae'r holl staff a disgyblion yn cyfarch ei gilydd yn Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol.
- [ ] Mae disgyblion a staff yn defnyddio Cymraeg sylfaenol amser cinio e.e. 'Dyma ti', 'Diolch' ac ati.
- [ ] Mae'r ysgol yn cynnal prynhawn â thema Gymraeg e.e. 'Rygbi Cymraeg' ar gyfer datblygu sgiliau iaith disgyblionar draws gwahanol weithgareddau ymarferol e.e. TGCh, crefft, gemau, Jamborî, ac ati.
- [ ] Mae un neu ddwy gêm iard yn cael ei chwarae yn Gymraeg yn ystod amser egwyl.
- [ ] Mae disgyblion yn deall, yn gofyn ac yn ymateb i gwestiynau a gorchmynion Cymraeg sylfaenol y tu allan i'r dosbarth.



Gwobr Efydd: Targed 5

# Mae gwasanaeth Cymraeg bob wythnos / pythefnos

- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn gyfrifol am arwain rhan o'r gwasanaeth Cymraeg.
- [ ] Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio'r Gymraeg i gyfarch yn ystod pob gwasanaeth.
- [ ] Mae emynau a chaneuon Cymraeg yn cael eu canu a gweddi seml yn Gymraeg yn cael ei hadrodd yn y gwasanaeth Cymraeg.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn cyfarch disgyblion a staff yn Gymraeg wrth iddyn nhw ddod i'r gwasanaeth.
- [ ] Mae gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal bob wythnos / pythefnos ac mae'r holl athrawon yn dod i'r gwasanaeth yn rheolaidd.

- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn cyflwyno'r 'ymadrodd ffocws' yn y gwasanaeth Cymraeg.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau Cymraeg yn y gwasanaeth Cymraeg.



**Gwobr Efydd: Targed 6**

# Mae disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall i ddysgu Cymraeg

- [ ] Mae rhai gweithgareddau siarad sydd wedi cael eu cwblhau gan ddisgyblion yn cael eu harddangos gan ddefnyddio codau QR, Flipgrid, HWB, e-Bortffolio, Seesaw ac ati.

- [ ] Mae disgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd. e.e. Adobe Express, iMovie ac ati i olygu tasgau / cyflwyniadau.

- [ ] Mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau digidol i wella eu dysgu e.e. cynlluniau sirol, Fflic a Fflac, Pod Antur, adnoddau HWB ac ati.

- [ ] Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd TGCh i gwblhau tasgau llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg e.e. cyflwyniadau.

- [ ] Mae rhestr o wefannau ac apiau Cymraeg addas ar gael yn rhwydd ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn gallu mynd at apiau ac yn gwneud defnydd da ohonyn nhw e.e. Magi Ann, Tric a Chlic, Campau Cosmig.

- [ ] Mae disgyblion yn dechrau defnyddio geiriaduron / thesawrws ar-lein i wneud yn siŵr bod eu sillafu yn gywir a'u bod nhw'n cael yr ystyr cywir e.e. Ap Geiriaduron, Gweiadur.

- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr Digidol i hyrwyddo'r defnydd o apiau / gwefannau / apiau prif ffrwd Cymraeg e.e. gweithio gyda disgyblion iau i arddangos apiau / dangos sut mae eu defnyddio.



# Gwobr Efydd: Targed 7

## Mae'r ysgol yn trefnu ambell weithgaredd cyfoethogi fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.

- [ ] Mae'r ysgol yn cysylltu â sefydliadau Cymraeg i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. yr Urdd, Menter Iaith, Merched y Wawr, CFfI.
- [ ] Mae'r ysgol yn trefnu tripiau i lefydd Cymraeg e.e. Llangrannog, Caerdydd, Glanllyn, Pentre Ifan, Sain Ffagan ac ati, er mwyn datblygu defnydd a mwynhad y disgyblion o'r Gymraeg.
- [ ] Mae'r ysgol yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwaraeon a chystadlaethau allanol e.e. cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.
- [ ] Mae'r ysgol weithiau'n gwahodd siaradwyr Cymraeg i ddod i siarad â'r disgyblion.
- [ ] Mae'r ysgol yn trefnu eisteddfod ysgol bob blwyddyn lle mae pob cystadleuaeth canu ac adrodd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gan dasgau gwaith cartref thema Gymreig. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn trefnu digwyddiadau i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru ayyb.
- [ ] Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau'r ysgol e.e. ar bosteri digwyddiadau a'r cyfryngau cymdeithasol.
- [ ] Mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn pethau sy'n cael eu creu gan ddisgyblion e.e. cardiau Nadolig, cacennau wedi'u haddurno / eitemau e.e. mygiau ac ati. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau. e.e. ar bosteri digwyddiadau.
- [ ] Mae'r ysgolion yn rhedeg clwb Cymraeg amser cinio / ar ôl ysgol gydag amrywiaeth o weithgareddau, neu mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn clybiau allgyrsiol.



Gwobr Efydd: Targed 8

# Mae sgiliau darllen Cymraeg (dan arweiniad) yn cael eu cyflwyno

- [ ] Mae disgyblion yn dechrau cael sesiynau darllen ac yn cael eu hannog i drafod cynnwys y llyfr. Mae disgyblion yn gallu ateb cwestiynau syml am gynnwys y llyfr a mynegi eu barn yn syml.

- [ ] Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael cadarn ar yr wyddor Gymraeg ac yn gwybod synau llythrennau e.e. trwy ddilyn cynlluniau fel Tric a Chlic. Mae athrawon yn defnyddio synau llythrennau Cymraeg wrth sillafu geirfa.

- [ ] Mae deunydd darllen ar y lefel briodol ar gael ym mhob dosbarth.

- [ ] Mae'r ysgol yn dechrau creu awyrgylch darllen Cymraeg cyfoethog e.e.
  - mae ymadroddion i drafod llyfrau yn cael eu harddangos.

- [ ] Mae'r ysgol wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar o'r adnoddau sydd ganddi ar hyn o bryd ac wedi buddsoddi mewn amrywiaeth dda o lyfrau darllen cyfredol ac addas a deunydd darllen arall.

- [ ] Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i wella eu darllen ac mae athrawon yn annog disgyblion i wneud defnydd da o gardiau meini prawf llwyddiant darllen i asesu eu hunain a'u cyd-ddisgyblion.

- [ ] Mae disgyblion hŷn yn darllen straeon syml i ddisgyblion iau.

- [ ] Mae athrawon yn dechrau cyflwyno llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys barddoniaeth neu straeon am Gymru, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn gallu ailadrodd cynnwys.



Gwobr Efydd: Targed 9

# Mae'r Gymraeg yn dechrau cael ei defnyddio mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill gan staff a disgyblion

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau e.e. cardiau cylch allweddi, posteri a matiau iaith i helpu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Mae patrymau a geirfa Gymraeg ar lefel briodol yn dechrau cael eu defnyddio gan staff a disgyblion mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. e.e. mathemateg pen, labelu rhannau'r corff, ffeiliau ffeithiau gwlad, sesiynau cynhesu Addysg Gorfforol.

Mae athrawon yn dechrau cynnwys patrymau / geirfa a gafodd eu cyflwyno yn flaenorol i Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill e.e. proffil personol o gymeriad hanesyddol

Mae'r dyddiad yn cael ei ysgrifennu yn Gymraeg ar y bwrdd gwyn ac yn llyfrau gwaith y disgyblion mewn rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio amrywiaeth o adnoddau trawsgwricwlaidd e.e. llyfrau, fideos, adnoddau ar-lein, gweithdai ayyb i ddysgu agweddau ar eu pwnc yn Gymraeg.

Mae disgyblion yn pwyso a mesur eu gwaith a gwaith disgyblion eraill ar lefel briodol yn Gymraeg mewn rhai Meysydd Dysgu a Phrofiad trwy ddefnyddio patrymau syml e.e. Beth wyt ti'n feddwl o...' Wyt ti'n hoffi...? Dw i'n hoffi... Dw i ddim yn hoffi...



Gwobr Efydd: Targed 10

# Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg

Mae gan yr ysgol wal graffiti / wal iaith sy'n esblygu fel bod disgyblion yn ymateb yn Gymraeg i gwestiwn sy'n cael ei bostio gan athrawon neu'r Criw Cymraeg.

Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau yn y gwasanaeth Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.
*siaradwr yr wythnos.*
*dosbarth yr wythnos.*

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i wobrwyo disgyblion a staff am siarad Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.

- ennill lle ar y bwrdd Cymraeg yn y neuadd ginio.
- tocyn iaith.
- pwyntiau tîm.
- tystysgrifau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu Criw Cymraeg sy'n arwain ar ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae cynrychiolydd o'r Criw Cymraeg yn cysylltu â'r Cyngor Ysgol i adrodd ar gynnydd.

Mae'r tîm arweinyddiaeth a rheoli yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygiad y Gymraeg a'i diwylliant ar draws yr ysgol e.e. ar CDY, ar agenda cyfarfodydd staff, mae agweddau cadarnhaol ac ymrwymiad yn cael eu dangos gan yr holl staff a llywodraethwyr.

Mae disgyblion yn chwarae amrywiaeth o gemau trwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- gemau iaith dosbarth.
- gemau iard.
- gemau cynhesu yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.
- gemau rhyngweithiol.

Mae disgyblion yn cael eu hysgogi i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous drwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- rhaglenni ac apiau Cymraeg.
- gweithgareddau ar-lein e.e. Bitesize.
- BBC Sounds - Miwsig y Siarter Iaith.
- Carioci Seren a Sbarc.
- Jamborî.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd go iawn e.e.

- prynu eitemau.
- archebu bwyd.

Mae disgyblion yn dathlu, canu ac yn gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg draddodiadol a modern drwy gydol y flwyddyn e.e.

- mae cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae o gwmpas yr ysgol, ar yr iard, yn y dderbynfa ayyb.

Mae canlyniadau holiaduron yn dangos bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg.

# Targedau
# Y Wobr
# Arian

## Gwobr Arian: Targed 1

# Mae'r Gymraeg yn amlwg ar y rhan fwyaf o arddangosfeydd ac arwyddion o gwmpas y dosbarthiadau ac yn gysylltiedig â'r pwnc cyfredol.

☐ Mae'r Gymraeg yn amlwg ar y rhan fwyaf o arddangosfeydd ac arwyddion o gwmpas y dosbarthiadau ac yn gysylltiedig â'r pwnc cyfredol

☐ Mae'r dderbynfa a'r neuadd yn adlewyrchu gweledigaeth gyfoes o Gymru.

☐ Mae'r Gymraeg yn cael ei harddangos yn amlwg o amgylch y dosbarthiadau e.e.

- poster croeso ar y drws
- mae'r rhan fwyaf o ardaloedd ag enw Cymraeg
- mae'r rhan fwyaf o ddeunyddiau wedi'u labelu yn Gymraeg.

☐ Mae arwyddion Cymraeg / Dwyieithog yn y rhan fwyaf o ardaloedd y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

☐ Mae disgyblion yn gweithio ar brosiect i arddangos y gair 'Croeso' yn amlwg y tu allan i'r ysgol. e.e. murlun mawr, mosäig ac ati.

☐ Mae cynnydd yr ysgol ar gyfer Gwobr Efydd y Siarter Iaith Cymraeg Campus yn cael ei arddangos yn glir.

☐ Mae elfen o Gymraeg ar lefel briodol i'w gweld ar y rhan fwyaf o'r arddangosfeydd y tu mewn a thu allan i'r dosbarthiadau.

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn rhannu cynnydd y Siarter Iaith a gwybodaeth am unrhyw weithgareddau a digwyddiadau Cymraeg drwy gylchlythyr/twitter/ gwefan.

☐ Mae'r Gymraeg yn amlwg ar wefan yr ysgol ac yn cael ei defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol e.e.

- Arwyddion Cymraeg ar wefan yrysgol.
- Dolenni i weithgareddau ar-lein i rieni a phlant.
- Enghreifftiau o weithgareddau Cymraeg sy'n digwydd mewn dosbarthiadau.
- Lluniau a fideos o ddathliadau a gweithgareddau Cymraeg.



Gwobr Arian: Targed 2

## Mae llawer o'r dysgwyr yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn gwybod am fanteision dysgu Cymraeg.

- [ ] Mae gan bob ysgol menter lle mae disgyblion yn mynd â rhywbeth Cymraeg gartref gyda nhw e.e. baner, bathodyn Cymraeg neu fasgot Cymreig. Mae ei hanes yn cael ei recordio neu ei gofnodi ar lefel briodol mewn dyddiadur.

- [ ] Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau e.e. 10 Stori o hanes Cymru, Ein Cymru Ni, 'Hanes Cymru' gan Mewn Cymeriad a 'Cymraeg, pa daith', 'Mwy o stori'r Iaith' a gŵyl flynyddol CADW o hanes Cymru, er mwyn meithrin balchder yn eu Cymreictod.

- [ ] Mae disgyblion yn gallu siarad yn hyderus am fanteision dysgu Cymraeg. Mae disgyblion yn creu posteri a chynnwys digidol sy'n cynnwys testun, lluniau a fideos byrion i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg.

- [ ] Mae disgyblion yn gallu canu anthem genedlaethol Cymru, 'Hen Wlad Fy Nhadau', a rhai caneuon Cymraeg traddodiadol gyda mwy o hyder.

- [ ] Mae 'Cynefin' a'r Dimensiwn Cymreig yn amlwg wedi cael ei gynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o Feysydd Dysgu a Phrofiad.

- [ ] Mae staff yn mynychu cyrsiau Cymraeg sy'n cael eu cynnig gan yr Awdurdod Lleol ac asiantaethau allanol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r cyrsiau sabothol ar gyfer athrawon a staff cymorth i wella eu sgiliau Cymraeg ymhellach.

- [ ] Mae'r ysgol yn archwilio medrau Cymraeg staff yn rheolaidd gan ddefnyddio fframwaith cymhwysedd Cymraeg LlC ar gyfer ymarferwyr addysg. Mae cynllun cefnogi a datblygu wedi'i gytuno ar gyfer pob aelod o staff er mwyn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

- [ ] Mae'r ysgol yn gweithio ar brosiect i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned e.e. gweithio gyda busnesau / sefydliadau lleol, neu drwy sefydlu cyswllt ag ysgol arall.

- [ ] Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth o ddyddiadau pwysig yn y calendr e.e. Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Twm Siôn Cati ac ati.

## Gwobr Arian: Targed 3

# Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg gyda mwy o hyder mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau

- [ ] Mae’r holl staff a disgyblion yn defnyddio Cymraeg ddyddiol fwyfwy drwy gydol y dydd.

- [ ] Mae pob dosbarth wedi gwreiddio cynllun trosfwaol yr ysgol (e.e. Cymraeg ar dy Dafod) i ddatblygu’r defnydd o Gymraeg ddyddiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu defnyddio amrywiaeth o’r ymadroddion hyn yn hyderus.

- [ ] Mae pob dosbarth yn datblygu’r fenter ‘Helpwr Heddiw’ ymhellach.

- [ ] Mae’r ‘ymadrodd ffocws’ sy’n cael ei gyflwyno yn y gwasanaeth yn cael ei ymarfer a’i ddefnyddio’n rheolaidd ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn gallu gofyn ac ymateb yn hyderus i gwestiynau cyfredol a blaenorol.

- [ ] Mae pob dosbarth yn defnyddio amrywiaeth o batrymau priodol yn eu trefn foreol e.e. cofrestr, cofrestru, archeb cinio, absenoldeb / salwch, trafod y tywydd, diwrnod yr wythnos ac ati.

- [ ] Mae disgyblion yn deall, yn gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth gynyddol o gwestiynau a gorchmynion Cymraeg.



Gwobr Arian: Targed 4

# Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg gyda mwy o hyder mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau

- [ ] Mae'r holl staff a disgyblion yn cyfarch ei gilydd yn Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol ac yn cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg.
- [ ] Mae galwadau ffôn yn cael eu hateb yn Gymraeg / mae'r neges peiriant ateb yn Gymraeg.
- [ ] Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio ar ddau brosiect i hybu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth e.e. Siop ffrwythau yn cael ei rhedeg yn Gymraeg; paratoi 'bocs Cymraeg' ar gyfer chwarae gwlyb / clwb brecwast; paratoi posteri iaith ar gyfer y neuadd ginio.
- [ ] Mae'r Criw Cymraeg yn sefydlu ardal lle mae pawb yn gallu dod at ei gilydd e.e. Pod Siarad / Cornel Cloncan yn ystod amser egwyl lle mae disgyblion yn cael eu gwobrwyo am ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau ffocws a chyfnewidiadau mewn sgwrs sylfaenol.
- [ ] Mae disgyblion a staff yn defnyddio Cymraeg amser cinio e.e. 'Dyma ti', 'Diolch', 'Beth wyt ti eisiau?' 'Wyt ti eisiau...?'
- [ ] Mae'r ysgol yn cynnal prynhawn Cymraeg ar thema dymhorol e.e. 'Rygbi Cymraeg' i ddatblygu sgiliau iaith y disgyblion ar draws amrywiaeth o weithgareddau ymarferol e.e. TGCh, crefft, gemau, Jamborî ayyb.
- [ ] Mae dewis o dri gêm iard yn cael eu chwarae yn Gymraeg yn ystod amser egwyl.
- [ ] Mae disgyblion yn deall, yn gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth gynyddol o gwestiynau a gorchmynion Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.



## Gwobr Arian: Targed 5

# Mae'r Criw Cymraeg yn arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaeth Cymraeg.

- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn gyfrifol am arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaeth Cymraeg.
- ☐ Mae'r pennaeth a'r athrawon yn cyfarch ac yn defnyddio gorchmynion Cymraeg sylfaenol yn ystod y gwasanaeth.
- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyflwyno ac yn arwain emynau, caneuon a gweddïau Cymraeg gan ddefnyddio ymadroddion sylfaenol yn y gwasanaeth Cymraeg.
- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyfarch disgyblion a staff a bydd cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae wrth i ddisgyblion ddod i mewn ac allan o'r gwasanaeth Cymraeg.
- ☐ Mae gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal bob wythnos / pythefnos ac mae'r holl athrawon yn dod i'r gwasanaeth yn rheolaidd.
- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyflwyno'r sesiwncwestiwn ac ateb ffocws yn y gwasanaeth Cymraeg ac yn dangos sut mae eu defnyddio.
- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau Cymraeg yn y gwasanaeth Cymraeg.
- ☐ Mae cyflwyniadau / straeon byr sy'n dathlu treftadaeth a thraddodiadau Cymru ac arwyr Cymru yn rhan o'r gwasanaeth Cymraeg.



Gwobr Arian: Targed 6

## Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd da o apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall i gyfoethogi eu dysgu a'u mwynhad o'r Gymraeg

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau siarad sydd wedi cael eu cwblhau gan ddisgyblion yn cael eu harddangos gan ddefnyddio codau QR, Flipgrid, HWB, e-Bortffolio, Seesaw ac ati.

Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn rheolaidd e.e. Adobe Express, iMovie ac ati i olygu tasgau / cyflwyniadau llafar.

Mae athrawon yn gwneud defnydd da o adnoddau digidol i wella eu dysgu e.e. cynlluniau sirol, Fflic a Fflac, Pod Antur, adnoddau HWB ac ati Maen nhw hefyd yn defnyddio apiau prif ffrwd yn Gymraeg e.e. animeiddiad Stop motion, Chatterpix, sgrin werdd ac ati i wella'r hyn sy'n cael ei ddysgu.

Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd TGCh i gwblhau tasgau llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg e.e. cyflwyniadau.

Mae rhestr o wefannau ac apiau Cymraeg addas ar gael yn rhwydd ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn gallu mynd at apiau ac yn gwneud defnydd da ohonyn nhw e.e. Magi Ann, Tric a Chlic, Campau Cosmig.

Mae disgyblion yn defnyddio geiriaduron / thesawrws ar-lein yn rheolaidd i wneud yn siŵr bod eu sillafu yn gywir a'u bod nhw'n cael yr ystyr cywir e.e. Ap Geiriaduron, Gweiadur.

Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr Digidol i wneud yn siŵr bod apiau / gwefannau / apiau prif ffrwd Cymraeg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd e.e. gweithio gyda disgyblion iau.



## Gwobr Arian: Targed 7

# Mae'r ysgol yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.

Mae'r ysgol yn cysylltu â sefydliadau Cymraeg i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. yr Urdd, Menter Iaith, Merched y Wawr, CFfI.

Mae'r ysgol yn trefnu tripiau i lefydd Cymraeg e.e. Llangrannog, Caerdydd, Glanllyn, Pentre Ifan, Sain Ffagan ac ati, er mwyn datblygu defnydd a mwynhad y disgyblion o'r Gymraeg.

Mae'r ysgol yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwaraeon a chystadlaethau allanol e.e. cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.

Mae'r ysgol weithiau'n gwahodd siaradwyr Cymraeg i ddod i siarad â'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn trefnu eisteddfod ysgol bob blwyddyn lle mae pob cystadleuaeth canu ac adrodd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gan dasgau gwaith cartref thema Gymreig. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r Criw Cymraeg yn trefnu'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Owain Glyndŵr ac ati. Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau'r ysgol e.e. ar bosteri digwyddiadau a'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn pethau sy'n cael eu creu gan ddisgyblion e.e. cardiau Nadolig, cacennau wedi'u haddurno / eitemau e.e. mygiau ac ati Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau. e.e. ar bosteri digwyddiadau.

Mae'r ysgolion yn rhedeg clwb Cymraeg amser cinio / ar ôl ysgol gydag amrywiaeth o weithgareddau, neu mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn clybiau allgyrsiol.



**Gwobr Arian: Targed 8**

# Mae sgiliau darllen Cymraeg (dan arweiniad) yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd

Mae disgyblion yn cael sesiynau darllen yn rheolaidd ac yn cael eu hannog i drafod cynnwys y llyfr. Mae disgyblion yn gallu ateb amrywiaeth o gwestiynau am gynnwys y llyfr a mynegi eu barn.

Mae gan lawer o ddisgyblion afael cadarn ar yr wyddor Gymraeg ac yn gwybod synau llythrennau e.e. trwy ddilyn cynlluniau fel Tric a Chlic. Mae athrawon yn defnyddio synau llythrennau Cymraeg wrth sillafu geirfa.

Mae deunydd darllen ar y lefel briodol ar gael ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn creu awyrgylch darllen Cymraeg cyfoethog e.e.

- mae gan lyfrgell yr ysgol adran Gymraeg
- mae ymadroddion i drafod llyfrau yn cael eu harddangos.
- Mae geiriaduron a thesawrws Cymraeg ar gael.

Mae athrawon yn cyflwyno llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys barddoniaeth neu straeon am Gymru, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn gallu ailadrodd cynnwys.

Mae'r ysgol wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar o'r adnoddau sydd ganddi ar hyn o bryd ac wedi buddsoddi mewn amrywiaeth dda o lyfrau darllen cyfredol ac addas a deunydd darllen arall.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i wella eu darllen ac mae athrawon yn annog disgyblion i wneud defnydd da o gardiau meini prawf llwyddiant darllen i asesu eu hunain a'u cyd-ddisgyblion.

Mae disgyblion hŷn yn aml yn darllen straeon syml i ddisgyblion iau.

Mae gan bob ddisgybl lyfr darllen Cymraeg eu hunain ac mae ganddyn nhw gofnod o'r llyfrau maen nhw wedi'u darllen.



Gwobr Arian: Targed 9

# Mae'r Gymraeg yn aml yn cael ei defnyddio mewn meysydd dysgu a phrofiad eraill gan staff a disgyblion.

- [ ] Mae athrawon yn cynnig / paratoi amrywiaeth o adnoddau e.e. cardiau cylch allweddi, posteri a matiau iaith i helpu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

- [ ] Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau trawsgwricwlaidd e.e. llyfrau, fideos, adnoddau ar-lein, gweithdai ac ati i ddysgu agweddau ar eu pynciau yn Gymraeg.

- [ ] Mae disgyblion yn pwyso a mesur eu gwaith a gwaith disgyblion eraill ar lefel briodol yn Gymraeg mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill trwy ddefnyddio patrymau syml e.e. Beth wyt ti'n feddwl o...' Dw i'n hoffi... achos... Dw i ddim yn hoffi...achos... Beth wyt ti'n feddwl o...? Dw i'n meddwl bod...

- [ ] Mae amrywiaeth gynyddol o batrymau a geirfa Gymraeg yn cael eu defnyddio ar lefel briodol gan staff a disgyblion mewn Meysydd Profiad a Dysgu eraill e.e. Mathemateg pen, labelu rhannau o'r corff, ffeiliau ffeithiau gwlad, cynhesu ar gyfer ymarfer Addysg Grefyddol.

- [ ] Mae athrawon yn cynnwys patrymau / geirfa a gafodd eu cyflwyno yn flaenorol i Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill e.e. proffil personol o gymeriad hanesyddol.

- [ ] Mae'r dyddiad wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg ar y bwrdd gwyn ac mewn llyfrau gwaith disgyblion yn y rhan fwyaf o Feysydd Dysgu a Phrofiad.



Gwobr Arian: Targed 10

# Mae gan lawer o'r disgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg

Mae gan yr ysgol wal graffiti / wal iaith sy'n esblygu fel bod disgyblion yn ymateb yn Gymraeg i gwestiwn sy'n cael ei bostio gan athrawon neu'r Criw Cymraeg.

Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau yn y gwasanaeth Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.
*siaradwr yr wythnos*
*dosbarth yr wythnos.*

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i wobrwyo disgyblion a staff am siarad Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.

- ennill lle ar y bwrdd Cymraeg yn y neuadd ginio.
- tocyn iaith.
- pwyntiau tîm.
- tystysgrifau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu Criw Cymraeg sy'n arwain ar ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae cynrychiolydd o'r Criw Cymraeg yn cysylltu â'r Cyngor Ysgol i adrodd ar gynnydd.

Mae'r tîm arweinyddiaeth a rheolaeth yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygiad y Gymraeg a'i diwylliant ar draws yr ysgol e.e. ar CDY, ar agenda cyfarfodydd staff, mae agweddau cadarnhaol ac ymrwymiad yn cael ei ddangos gan yr holl staff a llywodraethwyr.

Mae disgyblion yn chwarae amrywiaeth o gemau trwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- gemau iaith yn y dosbarth.
- gemau iard.
- gemau cynhesu yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.
- gemau rhyngweithiol.

Mae amrywiaeth o symbyliadau Cymraeg yn cael eu rhoi i ddisgyblion ac maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- rhaglenni ac apiau Cymraeg.
- gweithgareddau ar-lein e.e. Bitesize.
- BBC Sounds - Miwsig y Siarter Iaith.
- Carioci Seren a Sbarc.
- Jamborî.
- gweithdy drama.
- prosiect celfyddydol.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd go iawn e.e.

- prynu eitemau.
- archebu bwyd.

Mae disgyblion yn dathlu, canu ac yn gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg draddodiadol a modern drwy gydol y flwyddyn e.e.

- mae cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae o gwmpas yr ysgol, ar yr iard, yn y dderbynfa ayyb.
- mae disgyblion yn cael cyfle i bwyso a mesur cerddoriaeth Gymraeg.

Mae canlyniadau holiaduron yn dangos bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg.

# Targedau Y Wobr Aur

Gwobr Aur: Targed 1

# Mae tipyn o Gymraeg yn cael ei defnyddio mewn arddangosfeydd ac arwyddion o gwmpas yr ysgol

- ☐ Mae yna arddangosfeydd Cymraeg rhyngweithiol y tu mewn a'r tu allan i ddosbarthiadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc cyfredol. Mae'r Gymraeg i'w gweld yn glir ar bron pob arddangosfa arall ac yn cynnwys nodweddion rhyngweithiol e.e. botymau cofnodadwy a chodau QR.

- ☐ Mae ardaloedd cymunedol yn adlewyrchu gweledigaeth gyfoes o Gymru.

- ☐ Mae'r Gymraeg yn cael ei harddangos yn amlwg o amgylch y dosbarthiadau e.e.
  - poster croeso ar y drws.
  - mae bron pob ardal wedi ei henwi yn Gymraeg.
  - mae bron pob deunydd wedi'i labelu yn Gymraeg.

- ☐ Mae bron pob ardal y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol yn cynnwys arwyddion Cymraeg / Dwyieithog.

- ☐ Mae'r ymadrodd / sgwrs Gymraeg wythnosol yn cael eu rhannu'n ddigidol neu ar fwrdd gwybodaeth yr ysgol gyda rhiant / gwarcheidwad yn eu defnyddio gyda'u plant.

- ☐ Mae cynnydd yr ysgol ar gyfer Gwobr Efydd y Siarter Iaith Cymraeg Campus yn cael ei arddangos yn glir.

- ☐ Mae'r Criw Cymraeg yn gyfrifol am greu neges fideo tymhorol sy'n cael ei rannu'n ddigidol gyda rhieni ac sy'n sôn am weithgareddau Cymraeg a chynnydd yr ysgol gyda'r Siarter Iaith.

- ☐ Mae'r Gymraeg yn amlwg ar wefan yr ysgol ac yn cael ei defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol e.e.
  - Arwyddion Cymraeg ar wefan yrysgol
  - Dolenni i weithgareddau ar-lein i rieni a phlant.
  - Enghreifftiau o weithgareddau Cymraeg sy'n digwydd yn y dosbarthiadau.
  - Rhestr o batrymau iaith yn ymwneud â'r pwnc cyfredol sy'n cael eu hastudio ym mhob dosbarth.
  - Straeon newyddion gan gynnwys lluniau a fideos o ddathliadau a gweithgareddau Cymreig.
  - Podlediadau.



Gwobr Aur: Targed 2

# Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall ac yn parchu diwylliant ac iaith Cymru, ac yn gwybod am fanteision dysgu Cymraeg.

- Mae gan bob ysgol fenter lle mae disgyblion yn mynd â rhywbeth Cymraeg gartref gyda nhw e.e. baner, bathodyn neu fasgot Cymreig. Caiff ei hanes ei recordio. Mae disgyblion yn darllen eu hanes i'r dosbarth ac yn ateb cwestiynau.
- Mae disgyblion yn aml yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau e.e. 10 Stori o hanes Cymru, Ein Cymru Ni, 'Hanes Cymru' gan Mewn Cymeriad a 'Cymraeg, pa daith', 'Mwy o stori'r Iaith' a gŵyl flynyddol CADW o hanes Cymru, er mwyn meithrin balchder yn eu Cymreictod.
- Mae disgyblion wedi ymchwilio'n annibynnol i fanteision dysgu Cymraeg ac maen nhw'n gallu cyfleu'r prif negeseuon yn hyderus. Mae'r disgyblion yn creu arddangosfa, pamffled neu gynnwys digidol e.e. fideo am fanteision dysgu Cymraeg i'w rannu gyda'r gymuned ehangach.
- Mae disgyblion yn gallu canu Anthem Genedlaethol Cymru, 'Hen Wlad fy Nhadau', ac amrywiaeth o ganeuon traddodiadol Cymraeg yn hyderus.
- Mae 'Cynefin' a'r Dimensiwn Cymreig wedi cael ei gynllunio'n effeithiol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad.
- Bydd staff yn deall y disgwyliad i ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r Gymraeg drwy gydol eu gyrfa, yn ogystal ag ehangu sgiliau a chymhwysedd disgyblion yn y Gymraeg fel sy'n cael ei amlinellu yn y Safonau Proffesiynol.
- Mae'r ysgol yn archwilio medrau Cymraeg staff yn rheolaidd gan ddefnyddio fframwaith cymhwysedd Cymraeg LlC ar gyfer ymarferwyr addysg. Mae cynllun cefnogi a datblygu wedi'i gytuno ar gyfer pob aelod o staff er mwyn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae'r ysgol yn gweithio ar brosiect i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned e.e. gweithio gyda busnesau / sefydliadau lleol, neu drwy sefydlu cyswllt ag ysgol arall.
- Mae'r ysgol yn dathlu amrywiaeth o ddyddiadau pwysig yn y calendr e.e. Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Santes Dwynwen, Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Twm Siôn Cati ac ati.

# Gwobr Aur: Targed 3

## Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau

- Mae pob dosbarth yn defnyddio amrywiaeth o batrymau priodol yn eu trefn foreol e.e. cofrestr, cofrestru, archeb cinio, absenoldeb / salwch, trafod y tywydd, diwrnod yr wythnos ac ati.
- Mae sgwrs ffocws y mis sy'n cael ei chyflwyno yn y gwasanaeth yn cael ei hymarfer a'i defnyddio'n rheolaidd ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn gallu cynnal amrywiaeth o sgyrsiau syml gyda'i gilydd yn hyderus.
- Mae pob dosbarth yn defnyddio'r fenter 'Helpwr Heddiw' yn effeithiol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd yn ystod y dydd.
- Mae pob dosbarth wedi gwreiddio cynllun trosfwaol yr ysgol (e.e. Cymraeg ar dy Dafod) i ddatblygu'r defnydd o Gymraeg bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gallu defnyddio bron pob un o'r ymadroddion yn hyderus.
- Mae'r holl staff a disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfathrebu â'i gilydd trwy gydol y dydd.
- Mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg drwy'r amser ac yn gyson heb gael eu hannog ac yn gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau a gorchmynion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.



## Gwobr Aur: Targed 4

# Mae disgyblion yn gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu dosbarthiadau

- ☐ Mae disgyblion a staff yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gyson amser cinio.
- ☐ Mae gan y Criw Cymraeg amrywiaeth o fentrau i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn annibynnol gan ddisgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- ☐ Mae'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ac yn gyson mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd y tu allan i'r dosbarth trwy gydol y dydd.
- ☐ Mae galwadau ffôn yn cael eu hateb yn Gymraeg / mae'r neges peiriant ateb yn Gymraeg Mae staff y swyddfa yn defnyddio'r Gymraeg wrth gyfarch ymwelwyr.
- ☐ Mae'r holl staff a disgyblion yn cyfarch ei gilydd yn Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol ac yn cyfarch ymwelwyr yn Gymraeg.
- ☐ Mae amrywiaeth gynyddol o gemau'n cael eu chwarae yn Gymraeg yn ystod amser egwyl.
- ☐ Mae disgyblion yn deall, gofyn ac yn ymateb i amrywiaeth o gwestiynau a gorchmynion Cymraeg y tu allan i'r dosbarth.



Gwobr Aur: Targed 5

# Y Criw Cymraeg sy'n arwain bron y cyfan o'r gwasanaeth Cymraeg

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn gyfrifol am arwain y rhan fwyaf o'r gwasanaeth Cymraeg.

☐ Mae'r pennaeth a'r athrawon yn cyfarch yr ysgol yn Gymraeg ac yn defnyddio amrywiaeth o ymadroddion, cwestiynau a gorchmynion Cymraeg yn ystod pob gwasanaeth.

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyflwyno ac yn arwain emynau, caneuon a gweddi'r Arglwydd yn Gymraeg gan ddefnyddio amrywiaeth o ymadroddion yn y gwasanaeth Cymraeg.

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyfarch disgyblion a staff, ac yn dewis caneuon Cymraeg i'w chwarae wrth i ddisgyblion ddod i mewn ac allan o'r gwasanaeth Cymraeg.

☐ Mae gwasanaeth Cymraeg yn cael ei gynnal bob wythnos / pythefnos ac mae'r holl athrawon yn dod i'r gwasanaeth yn rheolaidd.

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn cyflwyno'r sgwrs ffocws ac yn arddangos sut mae ei defnyddio yn y gwasanaeth Cymraeg. Mae disgyblion yn cael y cyfle i ymarfer ac arddangos ei defnydd.

☐ Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau Cymraeg yn y gwasanaeth Cymraeg.

☐ Mae cyflwyniadau / straeon Cymraeg neu ddwyieithog byr sydd â thema foesol / yn dathlu treftadaeth a thraddodiadau Cymru ac arwyr Cymru yn rhan o'r gwasanaeth Cymraeg.



Gwobr Aur: Targed 6

# Mae'r disgyblion yn defnyddio apiau, gwefannau a thechnoleg ddigidol arall gryn dipyn i gyfoethogi eu dysgu a'u mwynhad o'r Gymraeg

- Mae llawer o'r prif weithgareddau siarad sydd wedi cael eu cwblhau gan ddisgyblion yn cael eu harddangos gan ddefnyddio codau QR, Flipgrid, HWB, e-Bortffolio, Seesaw ac ati. Mae gweithgareddau a phrosiectau llafar yn cael eu harddangos ar wefan yr ysgol, cylchlythyr, cyfryngau cymdeithasol ac ati.
- Mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o feddalwedd yn hyderus e.e. Adobe Express, iMovie ac ati i olygu tasgau / cyflwyniadau llafar.
- Mae athrawon yn defnyddio adnoddau digidol yn effeithiol i wella gwersi. e.e. cynlluniau sirol, Fflic a Fflac, Pod Antur, adnoddau HWB ac ati. Maen nhw hefyd yn defnyddio apiau prif ffrwd yn y Gymraeg e.e. animeiddiad Stop motion, Chatterpix, sgrin werdd ac ati i gyfoethogi dysgu.
- Mae disgyblion yn dal i ddefnyddio amrywiaeth o feddalwedd TGCh yn gyson ac yn defnyddio fformatau gwahanol i gwblhau amrywiaeth o dasgau llafar ac ysgrifenedig yn y Gymraeg.
- Mae rhestr o wefannau ac apiau Cymraeg addas ar gael yn rhwydd ym mhob dosbarth. Mae disgyblion yn gallu mynd at apiau ac yn gwneud defnydd da ohonyn nhw e.e. Magi Ann, Tric a Chlic, Campau Cosmig.
- Mae disgyblion yn defnyddio geiriaduron / thesawrws ar-lein yn annibynnol i wneud yn siŵr bod eu sillafu yn gywir a'u bod nhw'n cael yr ystyr cywir e.e. Ap Geiriaduron, Gweiadur.
- Mae disgyblion yn creu fideos Cymraeg byr e.e Sgwrs y mis y mae modd eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol, cylchlythyr ayyb.
- Mae'r Criw Cymraeg yn gweithio gyda'r Hyrwyddwyr Digidol ar brosiectau i wneud yn siŵr bod apiau / gwefannau / apiau prif ffrwd Cymraeg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd e.e. gweithio gyda disgyblion iau, rhannu patrymau a geirfa Gymraeg sylfaenol gyda rhieni.



# Gwobr Aur: Targed 7

## Mae’r ysgol yn aml yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau cyfoethogi, sy’n tyfu, fel bod disgyblion yn defnyddio eu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.

- Mae’r ysgol yn cysylltu â sefydliadau Cymraeg i hyrwyddo’r cyfleoedd sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. yr Urdd, Menter Iaith, Merched y Wawr, CFfI.

- Mae’r ysgol yn trefnu tripiau i lefydd Cymraeg e.e. Llangrannog, Caerdydd, Glanllyn, Pentre Ifan, Sain Ffagan ac ati, er mwyn datblygu defnydd a mwynhad y disgyblion o’r Gymraeg.

- Mae’r ysgol yn hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwaraeon a chystadlaethau allanol e.e. cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.

- Mae’r ysgol weithiau’n gwahodd siaradwyr Cymraeg i ddod i siarad â’r disgyblion.

- Mae’r ysgol yn trefnu eisteddfod ysgol bob blwyddyn lle mae pob cystadleuaeth canu ac adrodd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gan dasgau gwaith cartref thema Gymreig. Mae’r ysgol yn annog disgyblion i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd.

- Mae’r Criw Cymraeg yn trefnu’r rhan fwyaf o ddigwyddiadau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, Diwrnod Shwmae Su’mae, Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Owain Glyndŵr ac ati. Mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio i hyrwyddo digwyddiadau’r ysgol e.e. ar bosteri digwyddiadau a’r cyfryngau cymdeithasol.

- Mae’r Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn pethau sy’n cael eu creu gan ddisgyblion e.e. cardiau Nadolig, cacennau wedi’u haddurno / eitemau e.e. mygiau ac ati.

- Mae’r ysgolion yn rhedeg clwb Cymraeg amser cinio / ar ôl ysgol gydag amrywiaeth o weithgareddau neu mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio’n amlwg mewn clybiau allgyrsiol.



Gwobr Aur: Targed 8

# Mae gan ddisgyblion lyfrau darllen Cymraeg eu hunain ac maen nhw'n dal i gael sesiynau darllen dan arweiniad yn rheolaidd

Mae disgyblion yn cael sesiynau darllen rheolaidd ac maen nhw'n gallu trafod cynnwys yn hyderus . Mae disgyblion yn gallu trafod llyfrau yn hyderus yn Gymraeg gan ddangos dealltwriaeth o'r prif syniadau, digwyddiadau a chymeriadau a mynegi eu barn.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael cadarn ar yr wyddor Gymraeg ac yn gwybod synau llythrennau e.e. trwy ddilyn cynlluniau fel Tric a Chlic. Mae athrawon yn defnyddio synau llythrennau Cymraeg wrth sillafu geirfa.

Mae deunydd darllen ar y lefel briodol ar gael ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn dechrau creu awyrgylch darllen Cymraeg sy'n gyfoethog e.e.

- mae gan lyfrgell yr ysgol/y dosbarth adran Gymraeg
- mae adroddiadau am lyfrau Cymraeg yn cael eu harddangos o gwmpas yr ysgol
- mae ymadroddion i drafod llyfrau yn cael eu harddangos.
- Mae geiriaduron a thesawrws Cymraeg ar gael.

Mae'r ysgol wedi cynnal archwiliad yn ddiweddar o'r adnoddau sydd ganddi ar hyn o bryd ac wedi buddsoddi mewn amrywiaeth dda o lyfrau darllen cyfredol ac addas a deunydd darllen arall.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau i wella eu darllen ac mae athrawon yn annog disgyblion i wneud defnydd da o gardiau meini prawf llwyddiant darllen i asesu eu hunain a'u cyd-ddisgyblion.

Mae disgyblion yn creu deunydd darllen ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau e.e. deialogau, disgrifiadau , straeonbyrion , cartwnau ac ati.

Mae disgyblion hŷn yn aml yn darllen straeon syml i ddisgyblion iau.

Mae gan bob ddisgybl lyfr darllen Cymraeg eu hunain ac mae ganddyn nhw gofnod o'r llyfrau maen nhw wedi'u darllen.

Mae athrawon yn aml yn cyflwyno llenyddiaeth Gymraeg, gan gynnwys barddoniaeth neu straeon am Gymru, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgyblion yn gallu ailadrodd cynnwys.

Gwobr Aur: Targed 9

# Mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio cryn dipyn mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill gan staff a disgyblion

☐ Mae athrawon yn cynnig / paratoi amrywiaeth o adnoddau e.e. cardiau cylch allweddi, posteri a matiau iaith i helpu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

☐ Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau trawsgwricwlaidd yn hyderus e.e. llyfrau, fideos, adnoddau ar-lein, gweithdai ac ati i ddysgu agweddau ar eu pynciau yn Gymraeg.

☐ Mae disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o lyfrau ffeithiol e.e. 'Ein Cymru Ni', 'A wyddoch chi...?', 'Patagonia', 'Botswana' fel deunydd darllen ar gyfer darllen grŵp.

☐ Mae disgyblion yn gwerthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill ar lefel briodol yn Gymraeg mewn Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill trwy ddefnyddio patrymau syml e.e. Dw i'n meddwl bod..., Yn fy marn i..., Fy hoff... Mae'n well 'da fi / Mae'n dda gen i ... a rhoi rhesymau.

☐ Mae amrywiaeth o batrymau a geirfa Gymraeg yn cael eu defnyddio ar lefel briodol gan staff a disgyblion mewn Meysydd Profiad a Dysgu eraill e.e. Mathemateg pen, labelu rhannau o'r corff, ffeiliau ffeithiau gwlad, cynhesu ar gyfer ymarfer Addysg Grefyddol.

☐ Mae athrawon yn aml yn cynnwys patrymau / geirfa a gafodd eu cyflwyno yn flaenorol i Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill e.e. proffil personol o gymeriad hanesyddol.

☐ Mae'r dyddiad yn cael ei ysgrifennu yn Gymraeg ar y bwrdd gwyn ac yn llyfrau gwaith y disgyblion mewn sawl Maes Dysgu a Phrofiad.



Gwobr Aur: Targed 10

# Mae gan bron pob disgybl agwedd gadarnhaol at ddysgu Cymraeg

Mae gan yr ysgol wal graffiti / wal iaith sy'n esblygu drwy'r amser fel bod disgyblion yn ymateb yn Gymraeg i gwestiwn sy'n cael ei bostio gan athrawon neu'r Criw Cymraeg.

Mae disgyblion yn chwarae amrywiaeth o gemau trwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- gemau iaith yn y dosbarth.
- gemau iard.
- gemau cynhesu yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.
- gemau rhyngweithiol.

Mae amrywiaeth o symbyliadau Cymraeg yn cael eu rhoi i ddysgwyr ac maen nhw'n gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg e.e.

- rhaglenni ac apiau Cymraeg.
- gweithgareddau ar-lein e.e. Bitesize.
- BBC Sounds - Miwsig y Siarter Iaith.
- Carioci Seren a Sbarc.
- Jamborî.
- Profiadau theatrig a gweithdai drama
- prosiect celfyddydol.
- gweithgareddau mewn canolfan antur.

Mae disgyblion yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd go iawn e.e.

- prynu eitemau.
- archebu bwyd.

Mae disgyblion yn dathlu, canu ac yn gwrando ar amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg draddodiadol a modern drwy gydol y flwyddyn e.e.

- mae cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae o gwmpas yr ysgol, ar yr iard, yn y dderbynfa ayyb.
- mae disgyblion yn cael cyfle i bwyso a mesur cerddoriaeth Gymraeg.

Mae canlyniadau holiaduron yn dangos bod bron pob disgybl yn mwynhau dysgu Cymraeg.

Mae'r Criw Cymraeg yn dosbarthu gwobrau yn y gwasanaeth Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.

*siaradwr yr wythnos.*

*dosbarth yr wythnos.*

Mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i wobrwyo disgyblion a staff am siarad Cymraeg (os yw'r ysgol yn gweithredu system wobrwyo) e.e.

- ennill lle ar y bwrdd Cymraeg yn y neuadd ginio.
- tocyn iaith.
- pwyntiau tîm.
- tystysgrifau.

Mae'r ysgol wedi sefydlu Criw Cymraeg sy'n arwain ar ddatblygu'r Gymraeg yn yr ysgol. Mae cynrychiolydd o'r Criw Cymraeg yn cysylltu â'r Cyngor Ysgol i adrodd ar gynnydd.

Mae gan y tîm arweinyddiaeth a rheoli weledigaeth ac maen nhw'n dangos ymrwymiad clir i ddatblygiad iaith a diwylliant Cymru ar draws yr ysgol gyfan. e.e. ar CDY, ar agenda cyfarfodydd staff, mae agweddau cadarnhaol ac ymrwymiad yn cael eu dangos gan yr holl staff a llywodraethwyr.